Yn bresennol:

Aelodau'r Cyngor Cynulleidfa:

Janet Lewis-Jones (Cadeirydd ac Ymddiriedolwr Cenedlaethol dros Gymru)
Dafydd Whittall
Arun Midha
Roy Grant
Nicola Branson
Teresa Rees
Sangeet Bhullar
Alexandra McMillan
Carl Cooper
Andy Carter

Staff BBC Cymru Wales:

Menna Richards, Rheolwr BBC Cymru Wales
Clare Hudson, Pennaeth Rhaglenni (Saesneg)
Keith Jones, Pennaeth Rhaglenni (Cymraeg) a Chyfryngau Newydd
Mark O'Callaghan, Pennaeth Newyddion a Materion Cyfoes
Cathryn Allen, Pennaeth Datblygu Darlledu
Rhodri Talfan Davies, Pennaeth Marchnata, Cyfathrebu a Chynulleidfaoedd BBC Cymru Wales

Staff Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru, Ymddiriedolaeth y BBC:

Karl Davies, Pennaeth Llywodraethu ac Atebolrwydd BBC Cymru Wales
Siôn Brynach, Ymgynghorydd Atebolrwydd BBC Cymru Wales
Clair Baguley, Cynorthwy-ydd Adrannol, Llywodraethu ac Atebolrwydd BBC Cymru Wales

Yn gwasanaethu:

Pete Clifton, Pennaeth Datblygiad Golygyddol y BBC, Newyddiaduraeth Aml-gyfrwng (ar gyfer eitem 42)
Kevin Blacoe, Dadansoddwr, Tîm Perfformiad Ymddiriedolaeth y BBC (ar gyfer eitem 43)
Gareth Powell, Prif Swyddog Gweithredu BBC Cymru Wales (ar gyfer eitem 44)

Dennis Gethin
Jane James

Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod llawn a chywir o'r cyfarfod.

Dan unrhyw faterion sy'n codi ( ), hysbyswyd y Cyngor bod cynllun gwaith Ymddiriedolaeth y BBC wedi cael ei gwblhau a bod Uned Ymddiriedolaeth y BBC wedi gwerthfawrogi ymateb Cyngor Cynulleidfa Cymru i'r ymgynghoriad ar y cynllun gwaith.

Hysbyswyd y Cyngor bod consortiwm dan arweiniad *Golwg* wedi ennill y cymorth grant i ddatblygu cyhoeddiad dyddiol yn Gymraeg.

Hysbyswyd y Cyngor y byddai'r Ymddiriedolaeth yn trafod y Blaenoriaethau Blynyddol y tynnodd y Cyngor sylw atynt yn ei chyfarfod yr wythnos nesaf.

Hysbysodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol y Cyngor bod Fframwaith Cwynion newydd y BBC wedi cael ei fabwysiadu erbyn hyn, a'i fod yn cynnwys nifer o'r pwyntiau a godwyd gan y Cyngor.

Roedd yr adroddiad a oedd yn dilyn yr Adolygiad o Gost Talent wedi cael ei gyhoeddi yr wythnos flaenorol, ac roedd wedi cael llawer o sylw.

Hysbysodd y Cyngor hefyd bod yr Adolygiad Gwasanaeth o *bbc.co.uk* wedi cael ei gwblhau, a bod rhwyddineb cymharol y broses adolygu a chanlyniadau'r adolygiad yn dangos bod y broses Adolygu Gwasanaeth yn gweithio.

Dywedodd wrth y Cyngor bod archwiliad o safonau golygyddol wedi cael ei gyhoeddi hefyd yn dilyn cyhoeddi adroddiad Ron Neil, ac roedd yr archwiliad yn dangos bod gwaith yn mynd yn ei flaen i sicrhau bod safonau a ffydd yn cael eu diogelu.

Roedd materion yn ymwneud â radio digidol DAB yn parhau i gael eu cadw dan sylw.

Dywedodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol bod cyfarfod wedi cael ei gynnal â Chadeirydd a Phrif Weithredwr S4C y diwrnod blaenorol.

Hysbyswyd y Cyngor ynghylch y datblygiadau'n ymwneud â gwasanaethau plant S4C. Roedd hi wedi dod i'r amlwg erbyn hyn y gallai'r ail gam yn y broses o gyflwyno'r prosiect hwn gael effaith ar y darllediadau a gynhyrchir gan y BBC o'r Cynulliad Cenedlaethol, a gaiff eu darlledu ar S4C2 ar hyn o bryd. Felly roedd y BBC ac S4C yn chwilio am ffyrdd posibl o gyflwyno'r gwasanaeth hwn yn y dyfodol o gofio am y datblygiad arfaethedig hwn.

Gofynnodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol a oedd y Cyngor yn fodlon â'r cynnig a roddwyd ger bron ar gyfer y gwaith ymchwil i'r modd y caiff Cymru ei phortreadu ar deledu'r Rhwydwaith. Roedd y Cyngor yn fodlon â'r egwyddor o gomisiynu gwaith

ymchwil ar y mater hwn a fyddai'n ategu gwaith ymchwil arall a gomisiynwyd i'r Ymddiriedolaeth, a phenderfynodd sefydlu is-grŵp i drafod gwaith ymchwil y Cyngor.

Hysbysodd y Rheolwr y Cyngor bod cytundeb wedi'i gael ynghylch y cam nesaf yn y drafodaeth ar y strategaeth eiddo, a byddai astudiaeth ddichonoldeb yn cael ei chynnal.

Dywedodd y byddai cais yn cael ei wneud i'r Ymddiriedolaeth yn fuan i gynnal Prawf o Werth Cyhoeddus ar y cynigion i sefydlu gwasanaeth BBC Lleol. Dywedodd ei bod yn debygol y byddai'r effaith ar y farchnad yn wahanol yng Nghymru o'i chymharu â Lloegr oherwydd natur y wasg ranbarthol yn y ddwy wlad.

Cynhaliwyd brecwast ag Aelodau Seneddol yn fuan ar ôl cyfarfod diwethaf y Cyngor. Cafwyd beirniadaeth o'r diffyg sylw ymddangosiadol o roddir i Ogledd Cymru. Cafwyd trafodaeth frwd ynghylch blogiau hefyd, yn enwedig blogiau newyddiadurwyr gwleidyddol. Mynegwyd llawer iawn o gefnogaeth i BBC Wales - a chafodd y gyfres *Coal House* groeso arbennig.

Hysbysodd y Rheolwr y Cyngor bod cystadleuaeth Cerddor Ifanc y Flwyddyn y BBC, a gynhaliwyd yng Nghanolfan Mileniwm Cymru ac a gynhyrchwyd gan BBC Wales am y tro cyntaf, wedi bod yn bur llwyddiannus.

Hysbysodd y Cyngor bod diffiniad diweddar OFCOM o 'gynhyrchiad y tu allan i Lundain ar gyfer y Rhwydwaith' wedi cael ei fabwysiadu'n ddiweddar. Roedd y diffiniad yn seiliedig ar y tri maen prawf canlynol:
(a) rhaid bod gan y cwmni cynhyrchu ganolfan fusnes a chynhyrchu sylweddol yn y wlad dan sylw (h.y. Cymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon)
(b) rhaid i o leiaf 70% o gyllideb y cynhyrchiad (heb gynnwys cost y rheiny sy'n ymddangos ar y sgrîn, deunydd archif a chostau hawlfraint) gael ei wario yn y wlad dan sylw (h.y. Cymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon)
(c) rhaid i o leiaf 50% o'r bobl a ddefnyddir i wneud y cynhyrchiad (h.y. y rheiny nad ydynt yn ymddangos ar y sgrîn), yn ôl eu cost, gael eu cyflogi'n arferol yn y wlad dan sylw (h.y. Cymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon)

Hysbysodd y Pennaeth Newyddion a Materion Cyfoes y Cyngor bod rhifyn o *Week In Week Out* a ddarlledwyd yn gynharach yn yr wythnos, a oedd yn ystyried lefelau'r heintiau Clostridium difficile yn ysbytai Cymru, wedi ennyn ymateb sylweddol. Arweiniodd at gyhoeddiad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru y byddai'n ymchwilio i'r sefyllfa ar draws Cymru, ac y byddai profion yn cael eu cynnal yn ysbytai Cymru fel mater o drefn o hyn ymlaen. Roedd y Pennaeth Newyddion a Materion Cyfoes yn ystyried hyn yn enghraifft dda o raglen BBC Wales yn gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl Cymru.

Hysbysodd y Pennaeth Rhaglenni (Saesneg) y Cyngor ei bod wedi mynychu cylch trafod yn ddiweddar a drefnwyd gan Brifysgol Morgannwg i ddarlledwyr mewn

cenhedloedd llai, a dywedodd bod y gyfres *Coal House* wedi cael ei defnyddio fel sbardun i'r drafodaeth.

Hysbysodd y Pennaeth Rhaglenni (Cymraeg) a Chyfryngau Newydd y Cyngor bod Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd wedi bod yn gyfle defnyddiol i ddatblygu'r brand *Mosgito*, gan fod ffilmiau wedi cael eu creu gan bobl ifanc ar faes yr Eisteddfod i'w rhoi ar wefan *Mosgito*. Rhoddodd wahoddiad i aelodau'r Cyngor edrych ar yr hysbyslun arloesol ar gyfer gwefan *Doctor Who*.

Estynnodd y Cyngor ei longyfarchiadau i BBC Cymru Wales am ei ddarllediadau o Eisteddfod yr Urdd.

Hysbysodd y Pennaeth Datblygiad Golygyddol Aml-gyfrwng y Cyngor bod y Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi ymrwymo ym mis Ionawr 2008 i gynyddu'r sylw a roddir i sefydliadau democrataidd y DU, a dywedodd bod gwaith wedi bod yn mynd yn ei flaen ers hynny. Er bod cryn dipyn o ddeunydd ar gael eisoes o sefydliadau democrataidd y DU ar wefan y BBC, roedd y deunydd wedi'i leoli mewn gwahanol fannau. Nod y prosiect hwn oedd sicrhau bod y deunydd a oedd ar y wefan eisoes yn fwy hygyrch, a'i gwneud hi'n llawer haws i gynulleidfaoedd ddod o hyd i'r deunydd, ei chwarae a'i rannu.

Dangoswyd y rhyngwyneb arfaethedig i'r Cyngor, a fyddai'n cynnwys deunydd a ddarlledwyd yn fyw o'r sefydliadau gwleidyddol. Byddai cynulleidfaoedd yn gallu chwilio'r fideo am faterion penodol neu ddeunydd fideo o aelodau etholedig unigol a allai gael ei osod i mewn i wefannau eraill.

Byddai'r adran *Issues* yn rhoi cyfle i gynulleidfaoedd gael golwg ar faterion allweddol. Byddai hon hefyd yn system gydgasglu, a fyddai'n dwyn ynghyd y deunydd sydd ar gael eisoes i'w wneud yn fwy hygyrch i gynulleidfaoedd, a byddai'n cynnwys adran a fyddai'n tynnu sylw at y gwahaniaethau deddfwriaethol rhwng y gwledydd unigol sy'n rhan o'r DU.

Byddai'r prosiect yn cynnwys elfen ryngweithiol, lle byddai cynulleidfaoedd yn gallu cyfrannu at drafodaethau manwl ar amrywiaeth eang o faterion amserol difrifol gyda'r nod o dynnu'r tân allan o'r drafodaeth trwy daflu goleuni ar bwnc penodol.

Byddai un adran yn y porth gwleidyddiaeth yn cael ei henwi'n 'Great Moments', a fyddai'n dangos adegau arwyddocaol yn hanes gwleidyddiaeth ac yn darparu archif o'r deunydd sydd wedi ymddangos ar y porth gwleidyddiaeth. Trwy hynny byddai'n darparu adnodd dysgu pwysig ar gyfer addysgu dinasyddiaeth mewn ysgolion ac yn rhoi gwybodaeth i gynulleidfaoedd ynghylch cyfrifoldebau a meysydd gwaith pob sefydliad gwleidyddol. Y gobaith oedd y byddai cysylltiadau agos yn cael eu datblygu â'r sefydliadau y byddai'r porth yn ymdrin â nhw.

Bwriadwyd lansio cam cyntaf y porth tua diwedd 2008, â'r ail gam yn cael ei gyflwyno yn ystod haf 2009. Hysbyswyd y Cyngor bod yr ymateb wedi bod yn galonogol iawn,

a bod y sefydliadau cenedlaethol wedi bod yn gadarnhaol iawn yn y trafodaethau a gynhaliwyd hyd yma. Roedd y partneriaid allweddol eraill yn cynnwys *Blinx* a *My Society*. Hysbyswyd y Cyngor mai nod cyffredinol y prosiect Democratiaeth Ddigidol/Porth Gwleidyddiaeth oedd darparu adnodd o'r safon uchaf a oedd yn edrych ar sefydliadau gwleidyddol y DU.

Ymatebodd y Cyngor trwy ddweud ei fod yn ystyried y byddai'r datblygiad newydd hwn yn adnodd gwych ar gyfer disgyblion a myfyrwyr. Gofynnwyd i Bennaeth Datblygiad Golygyddol y BBC a oedd unrhyw wledydd eraill yn rhoi cynnig ar ddefnyddio dulliau tebyg. Atebodd trwy ddweud bod y BBC ar y blaen ar hyn o bryd, ac nad oedd unrhyw un yn ceisio gwneud unrhyw beth tebyg i hyn ar yr un raddfa yn unrhyw le arall.

Gofynnodd y Cyngor sut y byddai'r darllediadau o Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael eu trin yn ddwyieithog. Atebodd y Pennaeth Datblygiad Golygyddol trwy ddweud bod ymrwymiad cryf i ddarparu deunydd o'r Cynulliad Cenedlaethol yn ddwyieithog. Byddai'r rhyngwyneb ar gael yn Gymraeg a byddai dewis yn cael ei ddarparu ar gyfer y cynnwys.

Gofynnodd y Cyngor a fyddai'n bosibl rhannu deunydd fideo y gellir ei fewnosod yn segmentau. Dywedodd y Pennaeth Datblygiad Golygyddol y byddai hyn yn bosibl.

Dywedodd y Cyngor ei fod yn gobeithio y byddai'r datblygiad hwn yn cael effaith gadarnhaol ar yr ymgais i gael cynulleidfaoedd i ymwneud â gwleidyddiaeth, a holwyd y Pennaeth Datblygiad Golygyddol ynghylch lefel yr ymrwymiad gan wleidyddion unigol. Dywedodd bod nifer o wleidyddion wedi mynegi eu brwdfrydedd tuag at y prosiect.

Soniodd y Cyngor eto am ei bryder ynghylch y ffaith na cheir rhyngwyneb Cymraeg i iPlayer, a phwysleisiodd pa mor bwysig oedd hi fod rhyngwyneb Cymraeg yn cael ei gyflwyno ar gyfer y porth gwleidyddiaeth cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl iddo gael ei lansio. Gofynnodd y Cyngor hefyd a fyddai cyflwyno'r porth hwn yn cael effaith ar gyflymder cysylltiadau â'r we, mewn modd tebyg i'r hyn yr honnir sydd wedi digwydd o ganlyniad i gyflwyno iPlayer. Atebodd y Pennaeth Datblygiad Golygyddol trwy ddweud mai bach iawn o effaith y disgwylir i'r porth gwleidyddiaeth ei chael ar gyflymder cysylltiadau â'r we.

Holodd y Cyngor ynghylch hyd a lled yr archif hanesyddol a fyddai'n cael ei ddarparu. Atebodd y Pennaeth Datblygiad Golygyddol trwy ddweud y byddai'r archif yn tyfu, ac y byddai'r gwledydd unigol yn cael mewnbwn i'r clipiau hanesyddol a fyddai ar gael pan gaiff y porth ei lansio ac yn fuan wedi hynny.

Penderfynodd y Cyngor ysgrifennu llythyr yn mynegi ei bryder nad oedd rhyngwyneb Cymraeg iPlayer wedi cael ei gyflwyno hyd yn hyn, ac nad oedd rhaglenni teledu a radio Cymraeg y BBC wedi'u cyflwyno i'r system iPlayer chwaith.

Hysbysodd Kevin Blacoe, Dadansoddwr Tîm Perfformiad Ymddiriedolaeth y BBC, y Cyngor bod plant yn gynulleidfa allweddol i'r BBC. Roedd technoleg newydd yn newid y ffordd yr oedd plant yn gwylio ac yn defnyddio deunydd fideo, ac roedd y ffaith bod llai o refeniw yn dod o hysbysebu yn rhoi pwysau ar allu'r sianelau Darlledu fel Gwasanaeth Cyhoeddus masnachol i ariannu rhaglenni teledu i blant.

Nododd y Cyngor mai un agwedd bwysig ar ei ymateb fyddai tynnu sylw at y cwricwlwm addysgol gwahanol yng Nghymru. Penderfynodd y Cyngor y byddai'n cysylltu â'r Adran Addysg a Dysgu sy'n rhan o BBC Cymru Wales er mwyn manteisio ar ei harbenigedd.

Dywedodd Prif Swyddog Gweithredu BBC Cymru Wales mai prif nod y strategaeth eiddo oedd sicrhau swyddfeydd ac adeiladau addas a fyddai'n galluogi'r BBC i wneud mwy a chynhyrchu gwell deunydd er lles cynulleidfaoedd. Gobeithiwyd hefyd y byddai'r BBC yn gallu bod yn fwy agored a chreadigol a chydweithio mwy, trwy ddarparu'r cyfleusterau a'r technolegau diweddaraf. Dywedodd hefyd bod rhan arall o'r weledigaeth yn ymwneud â gwneud cyfleusterau'r BBC yn ganolfan rhagoriaeth ac yn ganolbwynt ar gyfer y diwydiannau creadigol yng Nghymru.

Un o'r ffactorau a fu'n gyrru'r prosiect hwn yn ei flaen oedd y ffaith bod y Ganolfan Ddarlledu bresennol yng Nghaerdydd yn adeilad a oedd yn heneiddio a'r ffaith bod y Ganolfan wedi'i lleoli ar ddau safle, a oedd wedi arwain at gostau cynnal a chadw uchel, cynllun aneffeithlon ac anhyblyg a pherfformiad amgylcheddol gwael. Nododd bod y dulliau o weithio wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, ac nid oedd yr adeilad presennol yn caniatáu i'r BBC symud gyda'r oes yn hawdd iawn.

Roedd y ffaith bod Cerddorfa Genedlaethol Cymru yn cael ei hadleoli i'w chartref newydd yn Neuadd Hoddinott yng Nghanolfan Mileniwm Cymru ddiwedd 2008 hefyd yn cynnig cyfleoedd.

Roedd y partneriaethau posibl y gellid eu datblygu ochr yn ochr â'r strategaeth eiddo yn cynnwys cyfleusterau cynhyrchu, gweithgarwch yn y celfyddydau a'r cyfryngau a phartneriaethau â'r sector annibynnol, darlledwyr eraill, sefydliadau academaidd, awdurdodau lleol a Busnes Creadigol Cymru.

Roedd technoleg newydd hefyd yn faes a oedd yn cynnig cyfleoedd newydd. Roedd BBC Wales wedi cael nifer o lwyddiannau yn ddiweddar, ac roedd yn esiampl o ddyfeisgarwch yn y maes. Y nod wrth ddefnyddio technoleg newydd oedd darparu atebion syml ac arloesol sy'n batrwm o arfer da, lle byddai gweithwyr technegol yn gweithio ochr yn ochr â chynhyrchwyr cynnwys gan gynnig gwelliant o safbwynt llif gwaith, a fyddai'n arwain at enillion yn greadigol ac yn economaidd.

Strategaeth gorfforaethol gyffredinol y BBC oedd sefydlu 8 prif ganolbwynt cynhyrchu ar draws y DU; sefydlu ystâd ar brydles; cael y manteision mwyaf posibl o dechnolegau newydd; sefydlu partneriaethau â darparwyr - e.e. cyfleusterau cynhyrchu; bod mor effeithlon ag sy'n bosibl (yn niwtral o ran arian yn y cyfnod hwn ar gyfer ffi'r drwydded deledu, cael ad-daliad cadarnhaol dros y tymor). Pwysleisiwyd bod Caerdydd yn safle o flaenoriaeth.

Dyma'r dewisiadau yr ystyriwyd eu bod ar gael i BBC Wales:

- gwneud y gwaith cynnal a chadw sy'n hanfodol yn unig
- ailddatblygu adeilad y Pencadlys ar y safle presennol
- adleoli Pencadlys BBC Wales
- sefydlu canolfan ar wahân ar gyfer cynhyrchu dramâu
- cydleoli adeilad Pencadlys BBC Wales a chanolfan ar gyfer cynhyrchu dramâu.

Amlinellodd y Prif Swyddog Gweithredu rai o'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ailddatblygu ar y safle presennol, gan ddweud y gallai'r datblygiad ymyrryd ar waith y sefydliad yn fawr a bod yn gostus o ran arian ac amser. Gallai adleoli gyflwyno risgiau oherwydd amgylchiadau'r farchnad. Roedd y risgiau'n ymwneud â thechnoleg yn cynnwys y perygl na fyddai digon o adnoddau arbenigol ar gael. Y prif risg ariannol oedd a fyddai'n fforddiadwy.

Hysbyswyd y Cyngor bod Pwyllgor Cyllid y BBC wedi cymeradwyo symud y prosiect yn ei flaen i gael ymgynghoriad allanol a chynhyrchu astudiaeth ddichonoldeb fanwl, gyda'r bwriad o allu cynnig yr argymhellion terfynol mewn 6 mis.

Roedd hi'n anodd iawn cynnig rhyw fath o amserlen ar gyfer y gwaith, yn enwedig gan fod y gwaith hwnnw'n dibynnu ar gynifer o ffactorau, ond ar hyn o bryd, byddai'n rhesymol tybio y byddai canolfan ar gyfer cynhyrchu dramâu wedi'i sefydlu erbyn 2010-2011 ac y byddai adeilad ar gael ar gyfer y Pencadlys erbyn 2013 ar y cynharaf.

Nododd y Cyngor ei bod hi'n bwysig ei fod yn pwysleisio yn ei ymateb i'r ymgynghoriad y dylai'r datblygiadau'n ymwneud â chynhyrchu'r rhestr 'B' fynd rhagddynt cyn gynted ag sy'n bosibl, gan fod yr egwyddor wedi'i sefydlu eisoes bod modd rhyddhau'r mathau hyn o ddeunydd.

Cytunwyd ar y fersiwn drafft o'r ymateb yn amodol ar gynnwys yr ychwanegiad hwn.

Cytunodd y Cyngor y byddai'n tynnu sylw at ei ymateb i'r ymgynghoriad ar BBC Jam.

– cytunodd y Cyngor ar y drafft hwn.

– Hysbysodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol y Cyngor bod papur Cyngor Cynulleidfa Cymru ar yr Adolygiad wedi cael ei fwydo'n uniongyrchol i Ymddiriedolaeth y BBC/y grŵp rheoli sy'n ffurfio ymateb y BBC i Adolygiad OFCOM o Ddarlledu fel Gwasanaeth Cyhoeddus.

– Roedd papur Cyngor Cynulleidfa Cymru ar Ddarlledu fel Gwasanaeth Cyhoeddus wedi bod yn sail i'r dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynodd y Cyngor i Bwyllgor Darlledu'r Cynulliad Cenedlaethol, ac roedd y Cyngor Cynulleidfa wedi cael ei wahodd i roi tystiolaeth ar

lafar. Byddai Teresa Rees, Arun Midha a Dafydd Whittal yn rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 30 Mehefin. Byddai'r Ymddiriedolwr Cenedlaethol ei hun yn ymddangos gerbron yr un Pwyllgor ar 16 Mehefin gyda Michael Lyons a Mark Thompson.

o'r sylw o roddir i wledydd unigol y DU Derbyniodd yr Ymddiriedolaeth yr adroddiad gan yr Athro Anthony King, a byddai'n cael ei gyhoeddi ar 11 Mehefin. Byddai aelodau Cyngor Cynulleidfa Cymru'n cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn sesiwn friffio ar ffurf telegynhadledd am 18.30 ar 10 Mehefin a fydd yn cael ei harwain gan Syr Michael Lyons.

Byddai'r adroddiad yn cael ei roi ar yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf y Cyngor Cynulleidfa.

– roedd y cynllun gwaith hwn bellach yn ddogfen gyhoeddus. Ystyriwyd hwn yn gam pwysig ymlaen o safbwynt dull gweithredu'r Cyngor.

– Rhoddodd Pennaeth Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru adroddiad ar drafodaethau'r noson flaenorol a gynhaliwyd gan is-grŵp allgyrraedd y Cyngor.

Hysbysodd y Cyngor bod dau ddigwyddiad allgyrraedd wedi'u trefnu ar gyfer y misoedd nesaf. Y digwyddiad cyntaf fydd brecwast ag aelodau o'r gymuned amaethyddol yn Llanwnnen ar 29 Gorffennaf, a byddai'r ail ddigwyddiad yn ginio ffurfio barn a gynhelir yn gynnar ym mis Medi, a fyddai'n ddigwyddiad tebyg i'r un a gynhaliwyd ym mis Mehefin y llynedd yng Nghanolfan Ddarlledu'r BBC, Caerdydd.

Cytunwyd y dylai'r thema ar gyfer y digwyddiad yn Llanwnnen fod yn ymwneud â'r sylw a roddir gan y BBC i'r gymuned y mae'r cyfranogwyr yn rhan ohoni a'r darllediadau sy'n berthnasol i'r gymuned honno. Roedd y materion eraill i'w trafod yn y cyfarfod hwn yn cynnwys argaeledd band llydan/*Lleol i mi*, rhaglenni'r BBC ar S4C, Newyddion, yr Adolygiad o Wasanaethau Plant a chasglu ffi'r drwydded deledu.

Un maes i'w archwilio yn ystod trafodaethau'n ymwneud â digwyddiadau allgyrraedd bach yn y dyfodol oedd gwahodd cynrychiolwyr o grwpiau CAB lleol a threfnwyr Undebau Credyd lleol.

Gan ddychwelyd at y digwyddiad allgyrraedd a drefnwyd ar gyfer 4 Medi, cynigwyd y dylai'r bobl ar wahanol fyrddau drafod gwahanol themâu - a thrafod o bosibl tri o Ddibenion Cyhoeddus y BBC ac Adolygiad Gwasanaeth yr Ymddiriedolaeth o Wasanaethau Plant. Yn ogystal, cymeradwyodd y Cyngor awgrym a wnaed gan un aelod y dylid gwahodd mudiadau sy'n ymwneud ag aelodau hŷn o'r cyhoedd (e.e. y Comisiynydd Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru, Age Concern a Help the Aged), ac awgrymwyd y dylai darpariaeth y BBC ar gyfer pobl hŷn fod yn thema arall i'w thrafod.

Cynigwyd y dylai'r themâu ar gyfer digwyddiadau allgyrraedd eraill yn ystod 2008-09 gynnwys, ymhlith pethau eraill, yr Adolygiad o Wasanaethau Plant, casglu ffi'r drwydded deledu a'r Prawf o Werth Cyhoeddus *BBC Lleol*.

Syniad arall a gynigwyd oedd y byddai'r Cyngor neu aelodau unigol o'r Cyngor yn gallu mynychu cyfarfodydd Cynghorau Ysgol - a hynny yng nghyd-destun yr Adolygiad sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd o Wasanaethau Plant. Hysbyswyd y Cyngor bod gan bob ysgol erbyn hyn rwymedigaeth statudol i sefydlu a hwyluso Cyngor Ysgol, ac efallai y byddent yn croesawu ychwanegiad o'r fath i'w hagenda. Awgrymwyd hefyd y dylid gofyn i Adran Addysg a Dysgu'r BBC a sefydliadau yng Nghymru sy'n ymwneud â gwasanaethau plant ac addysg am gyngor a sylwadau, er mwyn eu defnyddio yn sail i ymateb Cyngor Cynulleidfa Cymru i'r Adolygiad o Wasanaethau Plant y BBC. Fel yng nghyd-destun BBC Jam, cytunodd y Cyngor y dylid pwysleisio'r gwahaniaethau yn y cwricwlwm addysgol yng Nghymru.

Awgrymwyd efallai y byddai modd cydweithredu â sefydliad arall, sef Cyngor Sir Gâr. Hysbyswyd y Cyngor bod Cyngor Sir Gâr wedi penodi swyddog cynrychiolaeth yn ddiweddar, a dywedwyd y byddai'n ddefnyddiol cysylltu â'r person hwnnw er mwyn dysgu o'i brofiad ac archwilio meysydd posibl lle gellid cydweithredu.

– roedd papur wedi cael ei ddosbarthu, a gwahoddwyd aelodau'r Cyngor i ymateb iddo. Roedd y Cyngor yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol cadw a datblygu cysylltiad â'r Cynghorau Cynulleidfa eraill.

Roedd y Cyngor yn cydnabod y gwelliant sylweddol a oedd wedi digwydd i raglen waith y Cyngor, a'r effaith yr oedd y Cyngor Cynulleidfa wedi'i chael o'i chymharu â'r sefyllfa a oedd wedi bodoli dan y Siarter Frenhinol flaenorol. Talodd y Cyngor deyrnged i Bennaeth Llywodraethau ac Atebolrwydd Cymru a'r ddau aelod arall o'r tîm, gan ganmol faint o waith yr oedd tîm yn ei wneud ac ansawdd y gwaith hwnnw, yn ogystal â'i broffesiynoldeb.

Awgrymodd y Cyngor y dylid archwilio'r posibilrwydd o gynnal cinio cyn cyfarfod fel cyfle achlysurol i gynnal trafodaethau ag aelodau o dîm rheoli BBC Wales. Nodwyd hefyd y dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r ffyrdd y gallai'r Cyngor gynyddu ei ymwneud â gwleidyddion a phobl eraill sy'n llunio barn.

Awgrymodd y Cyngor y gallai fod yn ddefnyddiol i'r aelodau fynychu sesiynau hyfforddi ar waith craffu, er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu yn y modd mwyaf effeithiol mewn cyfarfodydd. Y teimlad cyffredinol oedd bod y Cyngor yn gweithio'n dda a bod y broses o gael mewnbwn i brosesau ac ymgynghoriadau'r Ymddiriedolaeth yn effeithiol a'i bod yn cael effaith gadarnhaol. Fodd bynnag, roedd y Cyngor hefyd yn cydnabod bod nifer o'r cyflwyniadau a roddir mewn cyfarfodydd yn faterion yr oedd angen hysbysu'r Cyngor yn eu cylch.

Cododd y Cyngor y syniad posibl o drefnu trafodaeth hanner diwrnod i ystyried patrwm gwaith y Cyngor - ym mis Ionawr 2009 o bosibl. Gofynnwyd i aelodau'r Cyngor barhau i adolygu'r cynllun gwaith a chynnig adborth arno.

Atgoffwyd y Cyngor y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 11 Gorffennaf yng Nghanolfan Ddarlledu'r BBC, Caerdydd, ac y byddai cinio preifat yn cael ei gynnal ar gyfer y Cyngor ar 10 Gorffennaf.

***